

Fforwm Cymunedau Ffydd
Cofnodion Cyfarfod 3 Ebrill 2017
Ystafell Ddigidyddiaid, Parc Cathays

Yn bresennol:

Prif Weinidog Cymru	Cadeirydd
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant	Dirprwy Gadeirydd
Aled Edwards	Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Gethin Rhys	Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Philip Manghan	(Cynrychiolydd) Archesgob Caerdydd
Jim Stewart	Cynghrair Efengylaidd Cymru
Elfed Godding	Cynghrair Efengylaidd Cymru
Nordzin Pamo	Cyngor Bwdiaid Cymru
Naran Patel	Cyngor Hindwiaid Cymru
Nirmala Pisavadia	Cyngor Hindwiaid Cymru
Stanley Soffa	Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru
Lisa Gerson	Cyngor Cynrychioli Iddewon De Cymru
Viv Bartlett	Cyngor Baha'i Cymru
Carol Wardman	Yr Eglwys yng Nghymru

Ymddiheuriadau:

Ahmed Darwish	Cyngor Mwslimiaid Cymru
Peter Richards	Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru
Surinder Channa	Cymdeithas Ddiwylliannol Sikhiaid Cymru
Christine Abbas	Cyngor Baha'i Cymru
Saleem Kidwai	Cyngor Mwslimiaid Cymru

Ysgrifenyddiaeth:

Andrea Adams	Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant
--------------	-------------------------------------

Swyddogion:

Maureen Howell	Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant
Paul Dear	Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant
Emma Small	Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant
Isabel Mortimer	Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant

Croeso a Chyflwyniadau

Croesawodd Prif Weinidog Cymru bawb i'r cyfarfod.

Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Roedd cofnodion y cyfarfod blaenorol wedi'u dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod. Cytunwyd bod y cofnodion yn gywir.

Pwyntiau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Roedd crynodeb o'r pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf ynghyd â diweddariadau wedi'u hanfon at yr aelodau cyn y cyfarfod. Cafodd y rhain eu nodi.

Materion yn Codi

1. Ffyddoedd Nas Cynrychiolir

Eglurodd Aled fod y Cyngor Rhyng-ffydd yn ystyried ffordd y gallai barn ffyddoedd nas cynrychiolir gael eu clywed a'u gwasanaethu yng nghyfarfodydd y Fforwm trwy'r Cyngor Rhyng-ffydd. Bydd y Cyngor Rhyng-ffydd yn hysbysu ynghylch eu penderfyniad a bydd enw'n cael ei gyflwyno gerbron i Brif Weinidog Cymru ei ystyried cyn y cyfarfod nesaf. Roedd Prif Weinidog Cymru yn croesawu'r ffordd hon o fynd ati.

2. Adroddiad ar Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb 2016

Dywedodd Prif Weinidog Cymru fod swyddogion wedi coladu gwybodaeth o'r pedwar Heddlu a swyddfeydd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a oedd yn nodi'r ystod eang o weithgareddau a ddigwyddodd ledled Cymru yn ystod yr wythnos, ynghyd â'r effaith a gawsant. Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r adroddiad yn cael eu cyhoeddi maes o law a bydd copïau'n cael eu rhoi i'r Fforwm.

Eitem 1 ar yr Agenda – Materion Mewnfudo – Paul Dear

Dywedodd Paul fod materion mewnfudo'n dal i fod â phroffil uchel, mewn cyd-destun byd-eang sy'n newid yn gyson. Mewn ymateb, mae Tasglu a Bwrdd Gweithrediadau Llywodraeth Cymru, a oedd yn canolbwyntio'n flaenorol ar y Rhaglen Adsefydlu Ffoaduriaid o Syria, wedi ehangu eu cylch gwaith i gynnwys ffoaduriaid a cheiswyr lloches ni waeth sut y daethant i Gymru.

Dros y misoedd diwethaf bu ffocws arbennig ar blant, gan gynnwys y penderfyniad dadleuol yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU i gau'r rhaglen 'Dubs' yn gynharach na'r disgwyl. Mae Prif Weinidog Cymru wedi ysgrifennu at Brif Weinidog y DU ynglŷn â hyn ac fe gytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i ddarparu £200,000 yn ychwanegol ar gyfer plant sy'n ffoaduriaid ac sy'n cyrraedd dan y cynllun cyn diwedd y flwyddyn.

Mae ystadegau diweddaraf y Swyddfa Gartref yn dangos bod awdurdodau lleol Cymru wedi gwneud cynnydd cyflym i roi croeso i ffoaduriaid. Cafodd 103 o ffoaduriaid eu hadsefydlu dan y Rhaglen Adsefydlu Ffoaduriaid o Syria yn chwarter olaf 2016, gan ddod â'r cyfanswm i bron i 400 erbyn diwedd y flwyddyn. Mae rhagor wedi cyrraedd yn ystod misoedd cyntaf 2017 ac mae pob awdurdod lleol yng Nghymru bellach yn cyfranogi yn y rhaglen.

Bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi oddeutu £1m dros y tair blynedd nesaf mewn gwasanaeth cymorth newydd ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches dan arweiniad Cyngor Ffoaduriaid Cymru, mewn partneriaeth gydag EYST, BAWSO, Cyfiawnder Lloches, Tros Gynnal Plant, Alltudion ar Waith a Dinas Noddfa. Bydd y prosiect yn rhoi cyngor a chymorth, gan gynnwys cyngor cyfreithiol a chynghor penodol i geiswyr lloches, gan gynnwys plant ar eu pen eu hunain. Cyfyngir yn ddifrifol ar y cymorth ymarferol y gellir ei roi gan reoliadau Llywodraeth y DU, sy'n cyfyngu ar allu ceiswyr lloches i gael mynediad at arian cyhoeddus.

Bydd y prosiect hefyd yn cefnogi menywod sy'n wynebu risg o drais ar sail rhywedd, anffurfio organau cenhedlu benywod neu gaethwasiaeth fodern, yn ogystal â chefnogi fforwm eirioli ar gyfer ceiswyr lloches yn Abertawe. Bydd ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael eu recriwtio fel hyfforddwyr ac eiriolwyr i ddylanwadu ar fynediad at wasanaethau cyhoeddus a'r modd y cânt eu portreadu gan y cyfryngau.

Mae Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cwblhau ymchwiliad i gymorth ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches a bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.

Dywedodd Paul fod diddordeb cynyddol yng Nghymru yn Rhaglen Nawdd Cymunedol Llywodraeth y DU i ffoaduriaid, a allai fod o ddiddordeb arbennig i grwpiau ffydd. Mae cydlyniant o fewn a rhwng cymunedau'n elfen hanfodol i lesiant a hunaniaeth pobl. Un o'r camau gweithredu yn ein Cynllun Cyflawni Cenedlaethol newydd ar gyfer Cydlyniant Cymunedol 2017-2020 fydd gweithio gyda chymunedau i ddeall ofnau am fewnfudo ac effaith Brexit a mynd i'r afael â'r pryderon hynny.

Dros y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd tuedd sy'n peri gofid tuag at sylw mwyfwy negyddol yn y cyfryngau a chynnydd sydyn mewn troseddau casineb ers y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, bu storïau cadarnhaol hefyd ynglŷn â'r croeso cynnes y mae llawer o ffoaduriaid wedi'i gael ers symud i Gymru.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, dywedodd Aled ei fod wedi cwrdd â Mr Miah, a gafodd ei dynnu oddi ar awyren a'i atal rhag mynd i mewn i'r Unol Daleithiau. Mae Mr Miah wedi cael ateb gan Awdurdodau'r Unol Daleithiau i ddweud nad oes cofnod ganddynt o'r digwyddiad na'r cais am fisa, er bod Mr Miah yn gallu dangos y dogfennau perthnasol. Fe ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru at yr Ysgrifennydd Tramor ynglŷn â'r digwyddiad gan ofyn am eglurhad.

Cam Gweithredu: Dywedodd Prif Weinidog Cymru y byddai'n hapus i ysgrifennu eto, i ofyn am eglurhad, o ystyried yr wybodaeth bellach hon. Dywedodd ei bod yn rhyfedd, os nad oedd fisa wedi cael ei roi, bod Mr Miah wedi cael mynd ar yr awyren yn y lle cyntaf.

Eitem 2 ar yr Agenda – Cydlyniant Cymunedol

Mae gan Lywodraeth Cymru Gynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol ers 2009. Ers 2012 mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu rhwydwaith o wyth o Gydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol sy'n gweithio ar draws pob un o'r 22 Awdurdod Lleol i feithrin cysylltiadau da rhwng grwpiau, monitro tensiynau, gweithio gyda grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio, a chefnogi Awdurdodau Lleol gyda gwaith sy'n ymwneud â throeddau casineb, caethwasiaeth fodern, cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, Prevent, a Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches. Mae'r Cydgysylltwyr Cydlyniant yn gweithio'n hyblyg i ymgysylltu â strwythurau lleol a rhanbarthol ym mhob ardal fel y bo'n briodol. Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Tachwedd 2016 i ymestyn y cyllid ar gyfer yr wyth cydgysylltydd rhanbarthol tan fis Mawrth 2018.

Rydym bellach wrthi'n drafftio'r Cynllun Cydlyniant Cymunedol ar gyfer 2017-2020 ac yn ceisio mewnbwn gan randdeiliaid. Y Fforwm Cymunedau Ffydd yw'r cyntaf o'n grwpiau rhanddeiliaid i fod yn rhan o'r broses hon. Bydd eraill yn cynnwys sefydliadau a ariennir dan y Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2017-2020, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y trydydd sector, a'r pedwar Heddlu.

Mae rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru am y pedair blynedd nesaf, *Symud Cymru Ymlaen*, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn inni weithio'n wahanol yn y dyfodol i gynyddu ein heffaith i'r eithaf. Rydym yn adlewyrchu hyn yn y cynllun newydd mewn tair ffordd:

Atal a meddwl am y tymor hir. Yn ogystal â rhoi cymorth da i ddioddefwyr, rydym yn canolbwyntio'n fwy ar gryfhau cydlyniant, ac atal troseddau casineb, radicaleiddio ac eithafiaeth. Mae hyn yn golygu pwyslais cryfach ar gydraddoldebau, ar gyfathrebu cadarnhaol, ac ar sicrhau ein bod yn lleihau rhwystrau i gynhwysiant ar gyfer grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio.

Cydlafurio ac integreiddio: Rydym yn cydnabod bod gan lawer o sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector rôl hollbwysig o ran meithrin cysylltiadau da, annog grwpiau i gymysgu, ac ymateb pan fo tensiynau'n codi. Yng nghynllun 2017-20 rydym yn amcanu at weithio mewn partneriaeth gyda'r heddluoedd, y trydydd sector, Awdurdodau Lleol ac eraill. Er enghraifft, rydym yn gobeithio gwneud gwaith ar y cyd i gyfleu gwrth-naratifau cadarnhaol, ac i fonitro pwysau cymunedol.

Cynnwys: Yng nghyfarfod Fforwm Hil Cymru ym mis Rhagfyr, rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant gyfarwyddyd i gasglu tystiolaeth trwy storïau personol a chlywed yn uniongyrchol gan bobl yr effeithir arnynt gan rwystrau i gynhwysiant, ymyleiddio neu droseddau casineb. Mae'r holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus newydd gwblhau eu hadroddiadau Llesiant a cheir negeseuon cryf ynddynt am bwysigrwydd cydlyniant ar gyfer llesiant ac ymdeimlad o hunaniaeth. Mae gennym gamau gweithredu yn y cynllun drafft i sicrhau bod lleisiau grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio'n cael eu clywed ac y gwrandewir arnynt.

Dywedodd Prif Weinidog Cymru mai'r peth pwysig yw nad ydym am i'r hyn yr ydym ni'n ei ystyried yn eithafiaeth ar hyn o bryd i ddod yn arferol yn y dyfodol. Mae'n bwysig tu hwnt, os yw pobl yn ymddwyn yn wael, eu bod yn wynebu grym llawn y gyfraith. Mae diweithdra'n isel ar hyn o bryd, ond nid dyma'r stori gyfan; efallai nad yw pobl sydd mewn cyflogaeth yn ennill cyflog uchel ac efallai nad oes pensiwn neu nawdd cymdeithasol arall ganddynt. Er mwyn cynnal cynhwysiant mae angen i ni helpu pobl sy'n teimlo'u bod wedi cael eu gadael ar ôl. Bydd y Tasglu yn helpu pobl i wireddu eu dyheadau o ran sgiliau i ddenu busnesau a swyddi i Gymru.

Yn ystod y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Un o'r mentrau sydd wedi deillio o'r gymuned ffydd yw Cenedl Noddfa
- Mae gan gymunedau ffydd rôl arbennig o ran gweithio dros gynhwysiant cymdeithasol ac maent yn dymuno gweithio gyda Llywodraeth Cymru tuag at hyn.

Cam Gweithredu: Aelodau'r Fforwm i anfon unrhyw sylwadau am y cynllun drafft at yr Ysgrifenyddiaeth

Eitem 3 ar yr Agenda - Tasglu'r Cymoedd

Estynnodd Prif Weinidog Cymru wahoddiad i Maureen Howell roi diweddariad ar Dasglu'r Cymoedd. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tasglu ym mis Medi 2016. Y Gweinidog dros Ddysgu Gydol Oes a'r Gymraeg sy'n cadeirio'r tasglu. Bydd y tasglu'n cynghori Llywodraeth Cymru ynghylch ffyrdd newydd o weithio i ddatblygu datrysiadau polisi ar gyfer y dyfodol. Mae ei nod yn uchelgeisiol – sut allwn ddod â

chyfoeth i'r cymoedd? Sut allwn wella iechyd ac addysg i'r bobl sy'n byw yn y cymoedd? Nid oes a wnelo ag arian newydd; mae a wnelo â sut yr ydym yn defnyddio'r arian sydd gennym mewn ffordd wahanol.

Yn arbennig, fe wnaed galwadau am ddull mwy ymgysylltiol ac integredig o greu mynediad at gyflogaeth a darparu swyddi gwell, o gynyddu sgiliau a rhoi cymorth i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus integredig sy'n ymgysylltu'n llawn â phobl sy'n byw yn y cymoedd.

Bydd y tasglu'n adeiladu ar bolisïau a rhaglenni blaenorol a oedd wedi'u bwriadu i adfywio'r cymoedd, ond bydd yn rhoi pwyslais arbennig ar ymgysylltu â'r cyhoedd a sicrhau bod mentrau newydd megis y Metro a'r bargeinion dinesig yn dwyn y manteision mwyaf posibl i gymunedau'r cymoedd. Ni ddylid eu gweld fel cyrchfannau i dwristiaid yn unig. Y ffordd orau allan o dlodi yw creu cyflogaeth gynaliadwy o ansawdd.

Mae ymgysylltiad cymunedol dwys yn mynd rhagddo, gan ddefnyddio sianeli a dulliau cyfathrebu gwahanol. Hyd yma mae naw digwyddiad ymgysylltu wedi cael eu cynnal gyda thros 400 o bobl gan gynnwys busnesau, athrawon a dysgwyr, rhieni, tenantiaid tai ac aelodau eraill o'r gymuned. Mae #TalkValleys wedi cael ei sefydlu gan gynnig rhif ffôn, cyfeiriad e-bost a phlatfformau yn y cyfryngau cymdeithasol i bobl adael mewnbwn, sylwadau a chwestiynau. Bydd arolwg ar-lein a grwpiau ffocws yn cael eu cynnal ym mis Ebrill ac mae panel pobl yn cael ei sefydlu. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddefnyddio methodoleg Canolfan Cynefin i ymgysylltu â chymunedau lleol.

Mae'r tasglu wedi adnabod tair blaenoriaeth allweddol, yn seiliedig ar y gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd hyd yma:

Swyddi a Sgiliau: Mae ffocws ar swyddi, a'r sgiliau y mae ar bobl eu hangen i gael mynediad at y swyddi hynny, wedi cael ei adnabod fel blaenoriaeth gynnar ar gyfer gweithredu. Mae gwaith yn mynd rhagddo yng Ngrŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol i ddatblygu'r rhan hon o gynllun y cymoedd i ddarparu 10,000 o swyddi newydd o ansawdd da yn y cymoedd, a hynny'n cael ei gefnogi gan ffyrdd arloesol o ddatblygu sgiliau sy'n gyson â phrinderau a adnabuwyd ac yn cynnwys cyfleoedd newydd ar gyfer sectorau twf.

Gwasanaethau Cyhoeddus Integredig a Gwell: Ffocws ar archwilio ffyrdd newydd o gydgyssylltu gwasanaethau cyhoeddus allweddol trwy dri chynllun peilot yn y cymoedd. Bydd uwch was sifil yn cael ei leoli i weithio gyda thri phrosiect cymunedol presennol i adnabod y rhwystrau i integreiddio gwell a darpariaeth gryfach.

Llesiant Cymunedol a Phersonol: Ffocws ar yr ystod ehangach o ffactorau sy'n effeithio ar ansawdd bywyd pobl gan gynnwys ffyrdd egniïol o fyw a mynediad at yr amgylchedd. Bydd hyn yn cynnwys cydweithio gyda phartneriaethau bargeinion dinesig i wella ansawdd tai ac effaith ymdrechion adfywio. Mae'r tasglu'n dymuno hybu potensial y rhanbarth ym maes twristiaeth.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod gan gymunedau ffydd dreftadaeth gref yn y cymoedd ac mae am ymgysylltu â phobl i glywed syniadau am y modd y gallwn weithio'n well. Bydd cynllun cyflawni Tasglu'r Cymoedd yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017.

Yn ystod y drafodaeth fe godwyd y pwyntiau canlynol:

- Cynigiodd aelodau'r Fforwm helpu i gysylltu'r tasglu â grwpiau elusennol sy'n gweithio gyda bugeiliaid stryd a banciau bwyd.
- Bydd aelodau'r Fforwm yn helpu'r tasglu i gysylltu â gwirfoddolwyr mewn cymunedau ffydd. Mae gan eglwysi Cymraeg egni hynod o gryf i gefnogi'r rhaglen adsefydlu ffoaduriaid a'r banciau bwyd.
- Ceir naratif cyffredin ynglŷn â'r cymoedd sy'n hunanddinistriol. Sut allwn ni weithio gyda'n gilydd i newid y naratif hwn?
- Mae'n anodd i gymunedau amrywiol yn y cymoedd oherwydd y niferoedd llai o Bobl Dduon, Pobl Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig nag yn y dinasoedd.
- Mae grwpiau ffocws yn archwilio'r rhesymau dros y bleidlais i adael yn y refferendwm ac maent am gydweithio gyda Llywodraeth Cymru i archwilio'r materion hyn.
- Mae'n bwysig bod pobl ifanc yn cael eu grymuso a'u bod yn datblygu hunanddelwedd gadarnhaol i ddatblygu ysbryd o gytgord a gwasanaethu cymunedau.

Cam Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i anfon dolen i arolwg y tasglu at aelodau'r fforwm.

Eitem 4 ar yr Agenda - Ymgysylltu ar y Gyllideb

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod ymgysylltu â rhanddeiliaid yn chwarae rhan bwysig ac angenrheidiol iawn wrth ystyried effeithiau penderfyniadau ynghylch y gyllideb. Atgoffodd y Fforwm fod Grŵp Ymgynghorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb (BAGE) wedi cyflawni rôl werthfawr yn y broses o lunio'r gyllideb dros y blynyddoedd diwethaf, gan helpu i wella ein sylfaen dystiolaeth mewn perthynas â chydraddoldebau a'n dealltwriaeth am yr hyn sydd fwyaf o bwys i bobl â Nodweddion Gwarchodedig.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n barhaus yn chwilio am ffyrdd y gallwn wella'r Asesiad o Effaith ein cynigion ar gyfer y gyllideb, gan gynnwys sut yr ydym yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid. Bydd rôl y Grŵp Ymgynghorol yn y dyfodol a chysylltiadau â grwpiau cydraddoldeb eraill yn rhan bwysig o'r ystyriaeth honno.

Atgoffodd Isabel y Fforwm fod BAGE wedi cael ei sefydlu ym mis Rhagfyr 2012, yn dilyn ymrwymiad yn yr Asesiad o Effaith Cyllideb Ddrafft 2013-14 ar Gydraddoldeb. Y nod oedd y byddai BAGE yn rhoi cyngor ynghylch ystyriaethau o ran cydraddoldeb a fyddai'n goleuo cynlluniau gwariant ar y lefel strategol. Mae wedi darparu fforwm ar gyfer rhannu a thrafod natur angydraddoldebau yng Nghymru ac roedd wedi'i fwriadu i fod yn ffynhonnell arbenigedd werthfawr ac yn ddull ymgysylltu allweddol.

Roedd y Gweinidog Cyllid a'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi blaenorol yn cyd-gadeirio'r Grŵp a chyfarfu BAGE ddiwethaf ar 24 Chwefror 2016 pan drafodwyd ei ddyfodol. Roedd BAGE yn ychwanegu peth gwerth at ffocws, arddull a fformat yr Asesiad o Effaith y Gyllideb. Fodd bynnag, amlygodd y drafodaeth hefyd fod dyblygu'n digwydd rhwng aelodaeth y grŵp ac aelodaeth o grwpiau eraill ym maes cydraddoldeb, er enghraifft y Grŵp Cyngori ar Gydraddoldeb i Bobl Anabl; y Grŵp Rhanddeiliaid Hawliau Dynol; Bwrdd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol; a Fforwm Hil Cymru.

Mae aelodau BAGE wedi mynegi'r dymuniad i weld sut y mae'r holl grwpiau hyn yn cydgysylltu ac maent yn dymuno osgoi dyblygu'r gwaith y maent yn ei wneud trwy gynrychiolaeth ar grwpiau amrywiol. Mae Ysgrifenyddion y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol a thros Gymunedau a Phlant wedi cytuno'n ddiweddar i archwilio dulliau posibl eraill a fyddai'n galluogi ystod ehangach o sefydliadau rhanddeiliaid i gyfrannu at y broses o lunio'r gyllideb. Bydd cyfarfod o BAGE yn cael ei drefnu yn y gwanwyn i ystyried y dull newydd hwn.

Cam Gweithredu: Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn hysbysu aelodau'r fforwm ynghylch y cynnydd.

Eitem 5 ar yr Agenda - Unrhyw Fater Arall

Nid chodwyd unrhyw eitemau eraill dan Unrhyw Fater Arall.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Bydd dyddiad y cyfarfod nesaf yn cael ei gyhoeddi'n fuan.